# Arweiniad ar gefnogi ysgolion ac UCDau a gynhelir sy'n mynd i gategori statudol

Beth sy'n digwydd, beth i'w wneud nesaf a beth i'w ddisgwyl

Mae'r arweiniad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Yr arweiniad hwn

Mae'r arweiniad hwn wedi'i gynllunio i gefnogi ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) sydd wedi cael eu gosod mewn categori statudol. Mae'n darparu arweiniad ar beth sy'n digwydd pan fydd ysgol neu UCD yn mynd i gategori statudol, beth mae'n rhaid i'r ysgol neu'r UCD a'r awdurdod lleol ei wneud ar ôl yr arolygiad, beth gallent ei wneud a beth i'w ddisgwyl gan Estyn. Gellir defnyddio'r arweiniad hwn ar y cyd â'r ddogfen 'Sut rydym yn arolygu' sydd i'w ganfod ar ein gwefan. Mae'r arweiniad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer ysgolion ac UCDau a gynhelir ac nid yw'n berthnasol i ysgolion annibynnol.

Gall cael ei gosod mewn categori statudol ar ôl arolygiad craidd fod yn brofiad heriol iawn i'r ysgol neu'r UCD. Mae'n heriol i gymuned gyfan yr ysgol neu'r UCD, ond gall fod yn heriol i unigolion hefyd, yn enwedig arweinwyr, ar lefel bersonol.

Mae'r arweiniad hwn yn darparu ystod o ystyriaethau a syniadau ar sut gellir cefnogi ysgolion / UCDau trwy'r broses hon. Fodd bynnag, mae cyd-destun pob darparwr yn wahanol ac ni fydd pob un o'r syniadau neu'r ystyriaethau yn y ddogfen hon yn briodol dan yr holl amgylchiadau.

Gallai hefyd fod yn fuddiol edrych ar ddogfen ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar Ysgolion sy'n achosi pryder.

# Cynnwys

1. Beth sy'n digwydd a beth i'w wneud yn yr ychydig ddyddiau cyntaf....4
2. Beth i'w wneud pan gyhoeddir yr adroddiad....6
3. Beth mae'n rhaid i ysgol neu UCD ei wneud ar ôl cael ei gosod mewn categori statudol, yn cynnwys y cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA)....8
4. Beth i'w ddisgwyl gan Estyn....10
5. Cymorth ar gyfer ysgolion / UCDau mewn categori statudol....13
6. Chwedlau a realiti....14

# 1. Beth sy'n digwydd a beth i'w wneud yn yr ychydig ddyddiau cyntaf

**Cymorth lles**

Pan fydd ysgol neu UCD yn mynd i gategori statudol, mae'n bwysig fod lles staff, yn enwedig lles y pennaeth a'r arweinwyr eraill, yn cael ei ystyried yn ofalus iawn. Yn aml, y pennaeth yw'r un sy'n gofalu am les aelodau staff eraill yn yr amgylchiadau hyn, ond mae'n brofiad hynod heriol i'r pennaeth. Mae gan y corff llywodraethol / pwyllgor rheoli rôl bwysig yn cefnogi lles y pennaeth trwy gydol y broses, ond yn enwedig yn ystod yr arolygiad ac yn y dyddiau a'r wythnosau cyntaf sy'n dilyn.

Pan fydd ysgol neu UCD yn cael ei gosod mewn categori statudol neu os yw hyn yn bosibilrwydd, bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector hwnnw yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol. Wedyn, gall yr awdurdod lleol (ALl) gefnogi lles staff a'r pennaeth, yn benodol. Gallai'r ALl a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli ystyried:

- Cysylltu â'r pennaeth i wirio'i les
- Cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr / Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli i gynnig cymorth (yn achos yr ALl)
- Mynychu'r ysgol neu'r UCD ar ddiwrnod olaf yr arolygiad i gefnogi'r pennaeth a mynychu'r cyfarfod adborth
- Mynychu'r ysgol neu'r UCD ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad i gefnogi'r pennaeth a helpu â llunio negeseuon at staff a llywodraethwyr
- Mynychu'r cyfarfod â staff i nodi y bydd yr ysgol a'r ALl yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r argymhellion a chefnogi'r staff (gweler isod)
- Cynnig cymorth lles, fel mynediad at unrhyw wasanaethau cwnsela a gynigir gan yr ALl
- Nodi mentor neu unigolyn cyswllt oddi mewn i'r ALl
- Hysbysu'r pennaeth y gall ei sefydliad proffesiynol neu'i undeb llafur (os yw'n berthnasol) gynnig cymorth bugeiliol iddynt

**Cyfathrebu**

Bydd angen i'r ysgol neu'r UCD feddwl am sut i gyfleu canfyddiadau'r arolygiad. Fel arfer, ni fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi am 45 diwrnod gwaith, felly mae amser i feddwl am gyfathrebu allanol. Mae'r adroddiad yn gyfrinachol i'r ysgol neu'r UCD hyd nes y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bydd angen cyfleu'r canfyddiadau i staff a llywodraethwyr yn yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl yr arolygiad. Gallai fod yn fuddiol ystyried y canlynol:

- Cael pob un o'r staff ynghyd

- Cynnal cyfarfod penodol ar gyfer llywodraethwyr / aelodau o’r pwyllgor rheoli
- Paratoi beth i’w ddweud ymlaen llaw
- Diolch i’r staff am eu gwaith yn ystod cyfnod yr arolygiad
- Nodi’r pethau cadarnhaol sy’n cael eu crybwyll yn yr adroddiad
- Bod yn glir am y meysydd i’w gwella
- Cyfathrebu canlyniad yr arolygiad yn glir
- Esbonio beth mae’n ei olygu i staff yn ymarferol – h.y. ymweliadau tymhorol ar gyfer ysgolion neu UCDau yn y categori Mesurau Arbennig (gweler y nodiadau isod), neu un ymweliad ymhen 12-18 mis ar gyfer ysgolion / UCDau sydd angen gwelliant sylweddol
- Ystyried sut caiff negeseuon eu llunio – e.e. mae hyn yn gyfle i barhau i wella a datblygu

Er gwaethaf y ffaith fod y canfyddiadau’n gyfrinachol i’r ysgol neu’r UCD hyd nes cyhoeddi’r adroddiad, gallai disgyblion a rheini ofyn beth ddigwyddodd o ganlyniad i’r arolygiad. Bydd angen i’r canlyniad aros yn gyfrinachol. Fodd bynnag, gallai fod yn ddoeth i arweinwyr ystyried beth fydd staff yn ei ddweud wrth ddisgyblion os byddant yn gofyn, heb ddatgelu’r canlyniad gwirioneddol. Er enghraifft, gallai arweinwyr ystyried rhywbeth tebyg i’r canlynol: ‘Roedd yr arolygiad yn ddefnyddiol o ran amlygu camau nesaf clir iawn i’r ysgol, a bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar…’

**Cefnogi llesiant yn ystod y broses wella**

Er y gall y cyfnod cychwynnol ar ôl mynd i gategori statudol fod yn arbennig o heriol, mae'r broses wella yn aml yn cael ei chynnal dros gyfnod hirach o amser a gall roi pwysau parhaus ar staff a disgyblion. Felly, mae'n bwysig bod lles yn parhau i fod yn ystyriaeth trwy gydol cyfnod y categori statudol, nid yn unig yn syth ar ôl yr arolygiad. Gall cadw ffocws ar les ochr yn ochr â gwaith gwella helpu i gynnal morâl a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd gwelliannau yn cael eu hymgorffori a'u cynnal dros amser.

Dylai ysgolion ac UCDau, cyrff llywodraethu neu bwyllgorau rheoli ac awdurdodau lleol ystyried sut y byddant yn monitro a chefnogi lles staff dros amser. Gall hyn gynnwys gwirio lles arweinwyr a staff yn rheolaidd, adolygu llwyth gwaith a disgwyliadau, a sicrhau bod gweithgarwch gwella yn gytbwys, wedi'i flaenoriaethu ac yn rheoladwy. Lle bo'n bosibl, dylai cynllunio gwella ystyried capasiti staff a cheisio osgoi dyblygu diangen neu ofynion gormodol.

Efallai y bydd arweinwyr hefyd yn dymuno ystyried lles disgyblion yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig pan fo canlyniadau arolygu neu weithgareddau dilynol yn creu ansicrwydd neu bryder. Gall cyfathrebu clir, cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu barn a chefnogaeth fugeiliol gyson helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel ac yn rhan o daith wella'r ysgol neu’r UCD.

# 2. Beth i'w wneud pan gyhoeddir yr adroddiad

**Bod yn barod**

Mae'n ddefnyddiol paratoi ar gyfer yr adeg pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi. Mae'n debygol y bydd sylw gan y cyfryngau, felly gall paratoi ymlaen llaw helpu lleddfu unrhyw straen, rhagweld unrhyw broblemau a galluogi'r ysgol neu'r UCD i ymateb yn gyflym i unrhyw ymholiadau. Mae'n fuddiol i'r ysgol neu'r UCD, y corff llywodraethol neu'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol, weithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer hyn.

Mae'r dyddiad cyhoeddi wedi'i osod mewn statud, felly ni ellir ei newid. Weithiau, cyhoeddir adroddiadau yn ystod y gwyliau ysgol. Byddai'n ddoeth i arweinwyr ysgol / UCD weithio gyda'r awdurdod lleol ar strategaeth i reoli sefyllfa felly, yn enwedig o ran rheoli negeseuon at rieni – e.e. trwy drefnu cyfarfod cyffredinol ar gyfer rhieni (heb ddatgelu'r union reswm) ar y diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y gwyliau, trwy baratoi datganiadau i'r cyfryngau ymlaen llaw, trwy gael cymorth gan dîm cyfathrebu'r ALl, ac ati.

**Rhoi gwybod i randdeiliaid**

Bydd corff llywodraethol neu bwyllgor rheoli'r ysgol neu'r UCD a'r awdurdod lleol yn ymwybodol o ganlyniad arolygiad craidd. Fodd bynnag, bydd angen i'r ysgol neu'r UCD roi gwybod i randdeiliaid eraill, fel staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

**Cyfathrebu â disgyblion**

Bydd angen i ganlyniad yr arolygiad gael ei gyfleu'n ffurfiol i ddisgyblion ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Efallai byddai arweinwyr eisiau defnyddio gwasanaethau neu gyfnodau dosbarth i wneud hyn. Gallai fod yn fuddiol paratoi cwestiynau cyffredin (FAQs) fel bod pob aelod o staff yn barod i ateb unrhyw gwestiynau. Gallai fod yn fuddiol i esbonio beth fydd hyn yn ei olygu iddynt yn ymarferol. Gallai fod yn fuddiol i ymgysylltu â disgyblion ynghylch beth sydd angen ei wella – e.e. trwy'r Cyngor Ysgol neu'r UCD neu grwpiau ffocws.

**Cyfathrebu â rhieni**

Mae'n fuddiol paratoi gohebiaeth (e.e. llythyr / neges e-bost / fideo) at rieni ynghylch canlyniad yr arolygiad. Mae hefyd yn ddoeth ystyried unrhyw ohebiaeth ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd angen i arweinwyr gynnwys camau yn gysylltiedig â chyfathrebu â rhieni, ac ystyried eu safbwyntiau, yn rhan o broses y cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA).

Rhaid rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am ganlyniad yr arolygiad a chynllun gweithredu yr ysgol / UCD i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn. Er enghraifft, gall hyn fod trwy lythyr neu gylchlythyr cryno, cyhoeddiad ar y wefan neu gyfarfod / gweithdy rhieni / gofalwyr. Gall cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr fod yn gam buddiol i'r ysgol neu'r UCD gyfleu ei chamau a chynnal ymddiriedaeth rhieni / gofalwyr. Mae hefyd yn caniatáu cyfle i rieni a gofalwyr ddarparu adborth a deall y broses ddilynol. Gall y cyfarfod hwn fod yn gyfle hefyd i annog

rhieni i gynorthwyo'r ysgol ag unrhyw un o'r pryderon a godwyd yn ystod yr arolygiad – e.e. presenoldeb disgyblion.

Weithiau, mae'r ALl yn penderfynu cynnal y cyfarfodydd hyn, er mwyn cefnogi arweinwyr yr ysgol / UCD. Ar adegau eraill, maent yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

**Delio â'r cyfryngau**

Pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi, mae'n debygol y bydd sylw gan y cyfryngau. Efallai byddai arweinwyr eisiau ystyried y canlynol:

- Cael datganiad yn barod ar gyfer y cyfryngau
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol ar unrhyw ddatganiad i'r cyfryngau
- Penderfynu sut / os byddant yn ymateb i unrhyw geisiadau am sylwadau neu gyfweliadau
- Penderfynu ar unrhyw bolisi cyfryngau cymdeithasol gyda'r awdurdod lleol

**Beth gall yr awdurdod lleol ei ystyried**

- Cefnogi'r ysgol â chynllun cyfathrebu, yn enwedig yn gysylltiedig â rheoli negeseuon at rieni
- Trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr undeb ar ddiwrnod cyhoeddi'r adroddiad i siarad am yr adroddiad ac ymateb i unrhyw faterion y gallai eu haelodau fod wedi eu codi
- Trefnu cyfarfod gydag aelodau etholedig perthnasol, yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol i ofyn a oes unrhyw beth mae arnynt eisiau ei wybod, a gofyn am eu cymorth i gefnogi'r ysgol. Mae'n debygol y bydd rhieni'n cysylltu â nhw, felly byddai'n fuddiol os ydynt wedi cael eu hysbysu'n dda ymlaen llaw.
- Cynorthwyo'r ysgol â'r cyfarfod ar gyfer rhieni (gweler y nodiadau uchod)
- Cefnogi'r Corff Llywodraethol â'i gwaith yn rheoli'r broses ac yn cefnogi'r ysgol
- Rhybuddio pob adran berthnasol yn yr ALl am y canlyniad – e.e. glanhau, teithio, arlwyo, esbonio bod hwn yn gyfnod anodd i'r ysgol ac y bydd yn delio â llawer o ohebiaeth. Rhybuddiwch yr adran iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a chyllid gan eu bod yn debygol o ddod yn flaenoriaeth ar gyfer cael cymorth.

# 3. Beth mae’n rhaid i ysgol neu UCD ei wneud ar ôl cael ei gosod mewn categori statudol, yn cynnwys y cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA)

**Creu cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA)**
Mae’n ofynnol i gorff llywodraethol neu bwyllgor rheoli ysgol neu UCD a osodwyd mewn categori statudol, trwy weithio gyda’r awdurdod lleol, lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA). Rydym wedi gweld bod CGOAau yn fwyaf llwyddiannus pan fydd yr ysgol neu’r UCD yn gweithio’n agos gyda’r awdurdod lleol i greu un cynllun unedig sy’n debygol o ysgogi’r gwelliannau angenrheidiol. Dylai camau gweithredu’r ysgol / UCD a’r awdurdod lleol fod yn glir yn y cynllun. Mae’r gofynion wedi eu hamlinellu yn y gyfraith ac wedi eu nodi yn y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd naill ai arolygydd cofnodol yr arolygiad craidd neu AEF profiadol arall yn cysylltu â’r darparwr i gynnig cefnogaeth i arweinwyr yr ysgol / UCD, ac ystyried sut orau i ddechrau gweithio ar y cynllun hwn.

Rhaid i’r corff llywodraethol neu’r pwyllgor rheoli rannu’r cynllun hwn gydag Estyn o fewn 20 diwrnod gwaith o gyhoeddi adroddiad yr arolygiad craidd. Wedyn, byddwn yn trefnu cyfarfod i drafod y CGOA. Ar ôl y cyfarfod am y CGOA gydag Estyn (gweler adran 3), mae hefyd yn ofynnol i’r ysgol neu’r UCD a’r awdurdod lleol anfon copi o’i chynllun gweithredu unedig, terfynol, i Lywodraeth Cymru. Dylai’r ysgol neu’r UCD anfon hwn at sarah.fulthorpe@gov.wales wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Estyn.

**Beth ddylai’r cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) ei gynnwys?**
Dylai’r CGOA amlinellu sut bydd yr ysgol neu’r UCD yn gwneud gwelliannau i fynd i’r afael â’r argymhellion a nodwyd gan Estyn. Gellir dod o hyd i’r arweiniad ar CGOAau ar wefan Estyn yma. Mater i ysgolion neu UCDau yw fformat y CGOA. Fodd bynnag, ar gyfer pob maes i’w wella (argymhelliad) a nodwyd yn yr adroddiad arolygu, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r cynllun gweithredu nodi’r canlynol:

- y camau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd
- cyfrifoldeb arweiniol am y camau a gynigir
- y cymorth y bydd yr ysgol yn elwa arno i fynd i’r afael â’r maes i’w wella
- y raddfa amser ar gyfer cwblhau’r gwaith gyda cherrig milltir allweddol
- adnoddau i’w cymhwyso i’r gwaith
- meini prawf llwyddiant, y bydd cynnydd yn cael ei farnu yn eu herbyn
- sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro, e.e. pwy, pryd a sut
- sut bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y camau a fwriedir ar gyfer yr ysgol, cadarnhau safbwyntiau rhieni ar y camau hyn, a sut bydd yn ystyried y safbwyntiau hynny
- manylion am y camau y mae’r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i fynd i’r afael â’r meysydd i’w

gwella a nodwyd yn yr adroddiad arolygu

- p'un a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'i bwerau ymyrraeth i ofyn i'r corff llywodraethol sicrhau cyngor neu gydweithio, rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethol neu'r pennaeth, a chymryd unrhyw gamau eraill, penodi llywodraethwyr ychwanegol, tynnu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn ôl neu ddisodli'r corff llywodraethol â bwrdd gweithredol dros dro
- sut bydd yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y camau a fwriedir ar gyfer yr ysgol, sut bydd yn cadarnhau safbwyntiau rhieni ar y camau hyn, a sut bydd yn ystyried y safbwyntiau hynny

Mae gofyniad o fewn Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 i ddiweddaru cynllun datblygu ysgol ar ôl arolygiad i adlewyrchu'r canfyddiadau. Gallai'r CGOA fod yn rhan o gynllun datblygu'r ysgol neu'r UCD, ond dylai ffurfio rhan annatod o flaenoriaethau gwella uniongyrchol yr ysgol neu'r UCD. Gellir dod o hyd i ganllawiau Llywodareth Cymru ar wella ysgolion yma.

**Rôl y corff llywodraethol neu'r pwyllgor rheoli**

Yn rhan o Reoliadau Addysg (Cymru) 2014, mae gan gyrff llywodraethol ofyniad i ailedrych ar gynllun datblygu ysgol neu UCD ar ôl arolygiad. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod cyfleoedd felly yn cael eu trefnu.

# 4. Beth i'w ddisgwyl gan Estyn

**Yn ystod yr arolygiad**

Yn ystod yr arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol (AC) yn gwirio lles y pennaeth ac yn holi'r enwebai / pennaeth am les staff. Bydd yr AC yn gallu esbonio'r broses ar gyfer categorïau statudol (beth ydynt, beth maent yn ei olygu, beth sy'n digwydd, ac ati) ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan yr ysgol neu'r UCD. Mae 'Sut rydym yn arolygu' yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am yr agwedd hon, hefyd.

Yn ystod y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad, bydd yr AC yn esbonio bod yr ysgol wedi cael ei gosod mewn categori statudol. Wedyn, bydd yn esbonio'n fras beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi isod.

**Cyswllt cychwynnol**

Ddeg diwrnod cyn y cyfarfod am y CGOA, bydd y Cydlynydd Arolygu yn cysylltu â'r ysgol neu'r UCD i roi gwybod iddi am y cyfarfod. Wedyn, bydd yr Arolygydd Cofnodol (AC) ar gyfer y cyfarfod yn cysylltu â'r ysgol neu'r UCD i drafod yr ymweliad. Efallai mai AC yr arolygiad craidd fydd yr AC, ond gallai fod yn aelod o'r tîm neu'n AEF arall os cafodd yr arolygiad ei arwain gan Arolygydd Cofrestredig yn y sector cynradd. Bydd un neu ddau arolygydd arall yn mynd gydag ef /gyda hi. Bydd yr AC yn trafod gyda chi beth i'w ddisgwyl o gyfarfod y CGOA, pwy fydd yn mynychu, beth fydd yn digwydd, ac ati.

**Cyfarfod y Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad (CGOA)**

Bydd ymweliad y CGOA fel arfer yn para diwrnod. Yn ystod yr ymweliad hwn, bydd tîm bach o arolygwyr (dim mwy na thri) yn trafod y cynllun gydag arweinwyr yr ysgol neu'r UCD, y llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Bydd hyn i werthuso p'un a yw'r CGOA yn debygol o fod yn arf effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag argymhellion yr ysgol neu'r UCD a sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Nod y cyfarfod yw bod yr holl gyfranogion yn cydweithio i drafod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y cynllun. Nid ymweliad arolygu yw hyn, ond cyfarfod cefnogol i helpu'r ysgol neu'r UCD i gynllunio ar gyfer gwelliant a phwysleisio y dylai pob un o'r cyfranogion perthnasol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn ymgysylltu'n llawn â'r cyfarfod hwn gan fod hwn yn gyfarfod hanfodol ar gyfer yr ysgol / UCD. Mae'n debygol fod materion ynghylch cynllunio gwelliant, felly bydd angen cymorth ar arweinwyr er mwyn gallu gwneud hyn yn llwyddiannus.

Ar ôl ymweliad y CGOA, byddwn yn anfon llythyr i'r ysgol neu'r UCD i ddweud p'un a yw'r cynllun wedi cael ei dderbyn ai peidio, ac awgrymu sut gellid ei gryfhau. Os na chaiff y cynllun ei dderbyn, rhaid anfon fersiwn ddiwygiedig i Estyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Wedyn, byddwn yn ymateb i hyn yn ysgrifenedig, ond ni fyddwn yn ailymweld â'r ysgol neu'r UCD. Wedi i'r cynllun gael ei dderbyn, gall corff llywodraethol neu bwyllgor rheoli'r ysgol neu'r UCD a'r awdurdod lleol anfon y CGOA i Lywodraeth Cymru.

**Ymweliad dilynol ar gyfer ysgolion neu UCDau sydd angen gwelliant sylweddol**

Bydd ymweliad dilynol ar gyfer ysgolion neu UCDau sydd angen gwelliant sylweddol yn cael ei gynnal 12-18

mis ar ôl cyhoeddi adroddiad yr arolygiad craidd. Bydd yr ymweliad fel arfer yn para hyd at dridiau, a bydd nifer yr arolygwyr yn gymesur â maint a natur yr ysgol neu'r UCD. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r ysgol neu'r UCD wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad, gan ystyried y cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Byddant yn ymgymryd ag ystod o weithgarwch arolygu, er enghraifft ymweld â gwersi, siarad â staff a disgyblion a chraffu ar waith disgyblion.

Os bydd y tîm yn barnu bod yr ysgol neu'r UCD wedi gwneud digon o gynnydd mewn cysylltiad â'r argymhellion, bydd y tîm yn argymell i PAEF y dylid tynnu'r ysgol neu'r UCD oddi ar y rhestr o ysgolion neu UCDau sydd angen gwelliant sylweddol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr ar ein gwefan yn esbonio ein penderfyniad. Os yw'r cynnydd yn annigonol, bydd y tîm fel arfer yn nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol neu'r UCD. Mewn achosion eithriadol iawn, os bydd y cyfarwyddwr strategol yn cytuno, gallai'r tîm farnu bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol neu'r UCD o hyd. Wedyn, bydd un ymweliad monitro pellach yn cael ei gynnal ymhen rhyw chwe mis, fel arfer.

**Ymweliadau dilynol ar gyfer ysgolion neu UCDau a osodwyd yn y categori mesurau arbennig**

Bydd ymweliadau dilynol ar gyfer ysgolion neu UCDau a osodwyd yn y categori mesurau arbennig yn cael eu cynnal bob 4 – 6 mis, ac fel arfer bob tymor. Bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar ychydig o'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Er y bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar y cynnydd mae'r ysgol neu'r UCD wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â sampl o argymhellion, dros gyfnod o 12 mis, byddwn fel arfer yn gwerthuso cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion. Bydd ymweliadau fel arfer yn para hyd at ddeuddydd a bydd arolygwyr yn cynnal ystod o weithgarwch arolygu a fydd yn amrywio, yn dibynnu ar ba argymhelliad/argymhellion yw'r ffocws ar gyfer yr ymweliad a'r adeg o'r flwyddyn. Gallai gweithgareddau gynnwys:

- cyfarfodydd ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol
- arsylwadau gwersi
- teithiau dysgu
- craffu ar waith disgyblion
- cyfarfodydd â disgyblion
- arsylwadau ar y cyd neu weithgarwch monitro arall
- craffu ar ddogfennau eraill

Er y bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar y cynnydd mae'r ysgol neu'r UCD wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â sampl o argymhellion, dros gyfnod o 12 mis, byddwn fel arfer yn gwerthuso cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion.

Ar ddiwedd pob ymweliad, byddwn yn barnu p'un a yw'r ysgol neu'r UCD yn parhau i fod angen mesurau arbennig ai peidio. Byddwn yn darparu adroddiad ar gyfer yr ysgol neu'r UCD ar ôl yr ymweliad, ond ni fydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Ei nod yw cefnogi'r ysgol neu'r UCD i barhau i wella. Byddwn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro hyd nes bydd PAEF yn penderfynu bod yr ysgol neu'r UCD wedi

gwneud digon o gynnydd i gael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig. Ar yr adeg hon, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ein gwefan.

Tra bydd ysgol neu UCD yn y categori mesurau arbennig, ni fydd modd i lywodraethwyr a'r awdurdod lleol benodi athrawon newydd gymhwyso (ANG neu RhAG) i fod yn aelodau o'r staff, heb ofyn am gymeradwyaeth gan Estyn. Os yw Estyn yn cefnogi'r penodiad, bydd angen i'r ysgol neu'r UCD ddarparu cynllun cymorth ar gyfer yr athro newydd gymhwyso. Gweler yr arweiniad hwn i gael mwy o wybodaeth.

# 5. Cymorth ar gyfer ysgolion / UCDau mewn categori statudol

Mae nifer o ffyrdd y gellir cefnogi ysgol neu UCD tra bydd mewn categori statudol.

- Dylai ysgolion neu UCDau weithio gyda'u hawdurdod lleol ar ôl yr arolygiad craidd a'r ymweliadau dilynol. Dylai'r awdurdod lleol gynllunio sut bydd yn cefnogi'r ysgol neu'r UCD i fynd i'r afael â'r argymhellion.
- Gall partner gwella'r ysgol neu'r UCD gefnogi'r ysgol neu'r UCD, er enghraifft trwy weithio ochr yn ochr ag arweinwyr i gryfhau cynllunio gwelliant a chasglu tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi gwerthusiadau.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn sefydlu panel amlasiantaethol i gefnogi ysgolion neu UCDau yn y categori Mesurau Arbennig. Mae'r panel hwn yn cyfarfod bob tymor, o leiaf, ac yn cynnwys yr ysgol neu'r UCD, aelod o'r corff llywodraethol neu'r pwyllgor rheoli, partner gwella'r ysgol neu'r UCD a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol.
- Mae gan lawer o awdurdodau lleol ymagwedd amlasiantaethol neu ymagwedd tîm o amgylch yr ysgol / UCD ar gyfer darparwyr yn y categori Gwelliant Sylweddol yn ogystal â Mesurau Arbennig. Gall fod yn fuddiol i'r math hwn o gymorth barhau pan gaiff ysgol / UCD ei thynnu o gategori statudol.
- Pan fydd ysgol neu UCD wedi dod allan o'r categori statudol, gall fod yn fuddiol i'r ALl drefnu cyfarfod gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr i drafod beth weithiodd, beth gallai swyddogion fod wedi'i wneud yn well, y gwersi a ddysgwyd, ac ati. Gall hyn helpu llywio'r cymorth ar gyfer darparwyr eraill yn y dyfodol.
- Os oes gan yr ysgol / UCD unrhyw ymholiadau neu bryderon am ymweliadau dilynol, gall gysylltu â'r Cydlynydd Arolygu yn Estyn, a fydd yn trosglwyddo'i ymholiad i'r arolygydd mwyaf priodol.
- Dylai ysgol neu UCD gysylltu â'i hawdurdod lleol ar ôl ei harolygiad craidd a'i hymweliadau dilynol, i ddarganfod sut bydd yn gallu cefnogi'r ysgol neu'r UCD wrth fynd i'r afael ag argymhellion.

# 6. Chwedlau a realiti

**Myth: Rhaid cyflwyno’r CGOA mewn ffordd benodol**
Realiti: Nid oes fformat sy’n cael ei ffafrio na’i awgrymu ar gyfer y CGOA. Fodd bynnag, dylid cadw at rai egwyddorion arweiniol – gweler y nodiadau uchod ar arweiniad ar y CGOA.

**Myth: Rhaid i ysgolion / UCDau gael CGOA a chynllun gwella**
Realiti: Y cynllun gwella fydd y CGOA, yn ei hanfod, ond efallai bydd ysgolion / UCDau eisiau cynnwys blaenoriaethau eraill ar gyfer yr hyn nad yw’r argymhellion yn ymdrin ag ef. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion / UCDau yn paratoi CGOA i gwmpasu’r argymhellion ac ychwanegu unrhyw flaenoriaethau ychwanegol ar y diwedd.

**Myth: Rhaid i’r CGOA aros yr un fath ac ni ellir ei newid heb gymeradwyaeth gan Estyn**
Realiti: Y CGOA fydd y cynllun gwella yn y pen draw, yn ei hanfod. Wedi i Estyn dderbyn y CGOA cychwynnol, mae’n naturiol y bydd angen er enghraifft i’r cyfnodau amser a manylion camau gweithredu penodol newid ac esblygu dros amser. Nid oes angen anfon y CGOA i Estyn ar gyfer ei gymeradwyo bob tro mae hyn yn digwydd. Fodd bynnag, mae ffocws y cynllun, yn cynnwys y prif gamau gweithredu arfaethedig a’r meini prawf llwyddiant, yn annhebygol o newid.

**Myth: Y fwyaf o gymorth sydd ar gyfer ysgolion / UCDau mewn categori statudol, gorau i gyd**
Realiti: Yn aml, pan fydd ysgolion / UCDau yn mynd i gategori statudol, daw cymorth o bob cyfeiriad ar ystod eang o bethau. Gall hyn fod yn llethol i’r ysgol / UCD, ac mae gwahanol bobl yn aml yn rhoi gwahanol negeseuon, sy’n gallu bod yn anghyson ac yn ddryslyd. Mae’n fuddiol gweithio gyda’r ysgol / UCD i gynllunio rhaglen gymorth sy’n diwallu ei hanghenion, yn hylaw ac yn cael ei blaenoriaethu’n briodol. Mae hefyd yn fuddiol sicrhau nad oes unrhyw negeseuon anghyson a rheoli maint y cymorth.

**Myth: Cyn y gellir tynnu ysgol o’r categori mesurau arbennig, rhaid bod yr ysgol wedi gwella i’r man lle na fyddai’n mynd i gategori gweithgarwch dilynol pe bai’n cael ei hailarolygu**
Realiti: Nid oes ‘man’ y mae’n rhaid i ysgol ei chyrraedd er mwyn cael ei thynnu o’r categori mesurau arbennig. Yr hyn sy’n bwysig yw cyflymdra a chynaliadwyedd y gwelliannau sy’n cael eu gwneud. Yn aml, bydd arolygwyr yn ystyried p’un a yw’r ysgol wedi ‘gwneud (o leiaf) un peth yn dda’ ac yn gallu trosglwyddo’r model hwn ar gyfer gwaith gwella ar draws agweddau eraill ar waith yr ysgol. Mae’n debygol y bydd rhai diffygion mewn darpariaeth o hyd pan gaiff ysgol ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Fodd bynnag, os yw arweinwyr ar bob lefel yn dangos yn glir y gallu i wneud y gwelliannau angenrheidiol, yna gellir tynnu’r ysgol o’r categori gweithgarwch dilynol.

**Myth: Pan fydd ysgol / UCD allan o gategori statudol, nid oes angen unrhyw gymorth pellach**
Realiti: Pan gaiff ysgol / UCD ei thynnu o gategori statudol, nid yw hyn yn golygu nad oes angen unrhyw

gymorth pellach. Efallai na fydd angen y lefel o gymorth yr oedd yn ei derbyn o’r blaen, ond dylai hyn fod wedi lleihau dros gyfnod wrth i’r ysgol / UCD wella, beth bynnag. Fodd bynnag, gall lefel benodol o gymorth ar ôl i ysgol / UCD gael ei thynnu o gategori fod yn fuddiol. Yn rhy aml, mae ysgolion / UCDau sydd wedi bod mewn categori statudol yn y gorffennol yn mynd yn ôl i gategori statudol yn yr arolygiad nesaf, gan nad yw gwelliannau wedi cael eu gwreiddio na’u cynnal.